

# **Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd) o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)**

Adran Meddygaeth Niwclear,  
Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel  
Dda

Dyddiad arolygu: 27 a 28

Gorffennaf 2021

Dyddiad cyhoeddi: 29 Hydref  
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	31
4.	Beth nesaf? .....	38
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio... 40	
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ..	41
	Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol .....	42
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	43

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o Adran Meddygaeth Niwclear Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg ar 27 a 28 Gorffennaf 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac Uwchswyddog Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC i ba raddau roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (y Rheoliadau)
- Cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, roedd gan y staff ymwybyddiaeth ddigonol o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd yn unol â Rheoliadau 2017.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu preifatrwydd ac urddas y cleifion a bod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd garedig, barchus a phroffesiynol.

Rhoddodd trafodaethau â staff yr adran yn ystod ein harolygiad sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at nifer o faterion mewn perthynas â'r ddogfennaeth gysylltiedig, gan gynnwys sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig yn adlewyrchu arferion clinigol yn gywir.

Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar lefel y gefnogaeth a roddir gan arweinydd yr adran meddygaeth niwclear. Fodd bynnag, nodwyd pryderon ynghylch lefel y gefnogaeth a'r ymgysylltu gan uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Cyfeiriodd y staff at broblemau ynghylch capasiti'r adran i gyflawni'r tasgau perthnasol sy'n ofynnol yn rhinwedd eu rôl fel deiliaid dyletswydd.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Tystiolaeth bod archwiliadau clinigol da yn cael eu cynnal
- Cysylltiadau gwaith da rhwng Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a'r staff sy'n gweithio yn yr adran
- Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod trefniadau priodol wedi'u rhoi ar waith i atal heintiau ac ymgymryd â gwaith dihalogi yn effeithiol
- Roedd dystiolaeth i ddangos bod gwybodaeth ysgrifenedig ddigonol yn cael ei rhoi i gleifion cyn iddynt gael eu harchwiliadau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid rhoi trefniadau ar waith i gasglu adborth yn rheolaidd gan gleifion ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran
- Cynnal adolygiad o gapasiti'r gweithlu er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff sy'n gweithio yn yr adran ddigon o gapasiti i gyflawni eu rolau
- Rhaid adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys manylion cywir am yr arferion a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn yr adran meddygaeth niwclear
- Sicrhau bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr holl ddeiliaid dyletswydd wedi cael yr hyfforddiant gofynnol a bod hawl ganddynt i gyflawni eu rolau perthnasol
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 1 Hydref 2009, ac mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i drigolion Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae'r bwrdd iechyd cyfan yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 387,000 o bobl.

Mae Adran Meddygaeth Niwclear Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn Hwlfordd yn cynnwys cyfarpar megis camera gamma, sy'n cynnwys sganiwr CT integredig, calibradwyr dosau a stilwyr gamma. Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys Radiograffwyr, Technolegwyr Clinigol, Radiolegydd Ymgynghorol a Chardiolegydd Ymgynghorol.

Mae'r adran hefyd yn cael cyngor a chymorth gan Arbenigwyr Ffiseg Feddygol<sup>1</sup> a Gwyddonwyr Clinigol gaiff eu cyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

---

<sup>1</sup> Ystyr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yw unigolyn sy'n meddu ar wybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu gynghori ynghylch materion sy'n ymwneud â chymhwyso ffiseg ymbelydredd at gysylltiad meddygol ym maes radioleg ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae ei gymhwysedd yn hyn o beth wedi'i gydnabod gan awdurdod cymwys. O dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n cyflawni cysylltiadau meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom gasglu barn cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo hynny'n briodol)er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.*

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu preifatrwydd ac urddas y cleifion a bod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd garedig, barchus a phroffesiynol.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod trefniadau digonol ar waith, yn gyffredinol, i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran.

Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gwybodaeth ysgrifenedig ddigonol yn cael ei rhoi i gleifion cyn iddynt gael eu harchwiliadau yn yr adran.

Mae angen i'r gwasanaeth roi proses ar waith i gasglu adborth yn rheolaidd gan gleifion ar eu profiadau a sicrhau bod canfyddiadau a champau gweithredu dilynol yn cael eu rhannu â'r cleifion a'r staff.

Fel rhan o'r broses arolygu, defnyddiodd AGIC arolygon ar-lein ac arolygon papur i gael barn y cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr adran. Cafwyd cyfanswm o 18 o ymatebion gan gleifion.

Gofynnodd yr arolwg i'r cleifion am eu barn ar eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol; dywedodd pob claf fod y gwasanaeth naill ai'n dda iawn neu'n dda. Dywedodd y cleifion y canlynol wrthym:

*"Roedd y staff i gyd yn gyfeillgar iawn ac yn barod iawn i helpu ac roedden nhw wedi gwneud fy mhrofiad yn llawer haws."*

*"Roedd y gwasanaeth yn wych."*

*“Roedd y gwasanaeth a gefais yn ystod fy ymweliad wedi gwneud i mi deimlo'n gysurus iawn. Roedd y staff i gyd yn gyfeillgar iawn.”*

*“Cefais i ofal a sylw penigamp gan bawb a oedd yn rhan o'r driniaeth.”*

## **Aros yn iach**

Roedd gwybodaeth i'w gweld ym mhrif ardal aros yr adran a oedd yn dangos manteision a risgiau'r gwahanol fathau o gysylltiadau meddygol. Roedd rhywfaint o wybodaeth ar gael hefyd am sut y gallai cleifion wella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan gynnwys cymorth rhoi'r gorau i smygu, ffyrdd o fyw iach, cyngor ar boen yn y fron a risgiau cardiaidd.

## **Gofal ag urddas**

Yn ystod ein hamser yn yr adran, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais, sensitif a phroffesiynol.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd arolwg fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a chadarnhaodd pob un ohonynt hefyd eu bod wedi gallu cadw eu preifatrwydd a'u hurddas yn ystod eu hapwyntiadau.

Ni wnaethom glywed unrhyw sgysiau sensitif yn yr adran yn ystod ein hymweliad. Cawsom wybod bod ystafelloedd ar gael i'r staff gael sgysiau preifat â'r cleifion. Cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i neb arall glywed.

Roedd ardaloedd yn yr adran lle gallai'r cleifion newid yn breifat cyn unrhyw driniaeth, os oedd angen. Er na welsom unrhyw gleifion yn cael triniaeth, gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gyfeillgar. Cawsom wybod bod drysau'r ystafelloedd archwilio yn cael eu cloi pan roedd archwiliadau'n cael eu cynnal.

Roedd prif ardal aros yr adran wedi cael ei had-drefnu er mwyn sicrhau bod modd i'r cleifion gadw pellter cymdeithasol wrth iddynt aros. Roedd arwyddion wedi eu gosod ar y seddi na ddylid eu defnyddio. Roedd hi'n ymddangos bod nifer priodol o seddi ar gael yn yr adran ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn bresennol yn ystod ein hymweliad.

## Gwybodaeth i gleifion

Fel y nodwyd eisoes, gwelsom rywfaint o dystiolaeth o bosteri yn ardal aros yr adran a oedd yn cynnwys gwybodaeth am fanteision a risgiau'r triniaethau cysylltu a gynhelir.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r cyfarwyddiadau a'r wybodaeth ysgrifenedig y dylid eu rhoi i gleifion cyn iddynt gael diagnosis â sylweddau ymbelydrol. Rhoddwyd enghraifft o'r dogfennau ysgrifenedig a anfonir at gleifion gyda'u llythyr apwyntiad fel tystiolaeth. Roedd y wybodaeth yn y dogfennau hyn yn cynnwys amlinelliad byr o'r driniaeth, gofynion ar ôl y driniaeth a gwybodaeth am statws bechiogrwydd a bwydo ar y fron.

Yn ogystal, roedd gan y cyflogwr weithdrefn i ddarparu gwybodaeth ddigonol ar lafar i'r cleifion am fanteision a risgiau cysylltiad. Roedd y weithdrefn hon yn amlinellu'r camau y dylai'r staff eu cymryd i sicrhau bod y cleifion yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac yn cynnwys datganiad ansoddol i'r staff ei ddefnyddio wrth sgwrsio â'r cleifion cyn eu cysylltiad.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn trafod manteision a risgiau'r cysylltiad â'r claf ar lafar fel mater o drefn cyn triniaethau. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd arolwg eu bod wedi cael gwybodaeth glir i'w helpu i ddeall manteision a risgiau eu triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Hefyd, cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain ar ôl eu triniaeth, yn ogystal â gwybodaeth am bwy y dylent gysylltu â nhw i gael cyngor am unrhyw sgil-ffeithiau sy'n deillio o'r cysylltiadau.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod doler sain ar gael ym mhrif dderbynfa'r adran, er mwyn helpu pobl sy'n gwisgo cymhorthion clyw i gyfathrebu â'r staff. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein hymweliad yn gwybod bod y system hon ar gael. Cawsom wybod bod trefniadau'n cael eu gwneud i helpu cleifion â nam ar eu clyw, gan gynnwys ysgrifennu gwybodaeth i

lawr a gwisgo feisorau clir yn lle mygydau, er mwyn galluogi'r cleifion i ddarllen gwefusau wrth gyfathrebu â'r staff.

Cadarnhaodd y staff fod gwasanaethau cymorth cyfathrebu ar gael os bydd claf na all gyfathrebu yn Saesneg yn dod i'r uned. Cawsom wybod bod y cymorth hwn wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol; gan gynnwys trefnu bod aelod o'r gwasanaeth cymorth yn dod i'r uned ar gyfer apwyntiad gyda chlaf a chymorth cyfieithu dros y ffôn.

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd i'w gweld yn yr adran ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Dywedwyd wrthym fod rhai radiograffwyr Cymraeg yn gweithio yn yr Adran Radioleg. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw beth amlwg yn ardaloedd cyhoeddus yr adran i ddangos y gallai'r cleifion siarad â'r staff yn Gymraeg os oeddent yn dymuno. Gellid hyrwyddo'r ffaith bod siaradwyr Cymraeg ar gael yn yr adran neu drwy'r gwasanaethau cymorth cyfathrebu yn well er mwyn helpu i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'<sup>2</sup>.

Dywedodd un o'r cleifion a ymatebodd i'n harolwg mai Cymraeg oedd ei iaith gyntaf a'i fod yn teimlo nad oedd wedi gallu sgwrsio yn ei iaith ddewisol ac nad oedd wedi cael gwybodaeth yn ei iaith ddewisol ychwaith.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i hyrwyddo'r ffaith bod staff/cymorth Cymraeg ar gael yn yr adran er mwyn helpu i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i roi gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion yn Gymraeg pan fo angen.

### **Gofal amserol**

O'r 15 o gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn ein harolwg, dywedodd pob un heblaw un wrthym ei bod yn "hawdd iawn" neu'n "weddol hawdd" cael apwyntiad yn yr adran.

Cawsom wybod bod trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu fel mater o drefn wrth iddynt gyrraedd yr adran os yw'n debygol y bydd oedi mawr cyn eu hapwyntiad. Ar yr achlysuron hyn, gofynnir i'r cleifion a hoffent ddychwelyd

---

<sup>2</sup> Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg.

yn nes ymlaen. Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi aros llai na 15 munud i gael eu triniaeth.

## Gofal Unigol

### Gwrando a dysgu o adborth

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau sydd ar waith i ymateb i unrhyw bryderon a godir ar lafar gan y cleifion. Cawsom wybod bod ymdrechion yn cael eu gwneud, lle y bo'n bosibl, i geisio datrys y mater gyda'r claf yn gyflym ac yn effeithlon. Lle nad oedd hyn yn bosibl, dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cyfeirio at reolwyr yr adran a/neu broses pryderon y bwrdd iechyd.

Roedd taflenni gwybodaeth a phoster ar gael yn yr adran am weithdrefn gwyno GIG Cymru, sef Gweithio i Wella<sup>3</sup>. Roedd taflenni gwybodaeth ar gael hefyd am y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion<sup>4</sup>, pe bai angen cyngor ar gleifion am wasanaethau'r GIG.

Roedd slipiau adborth penodol mewn perthynas â'r bwrdd iechyd a'r adran ar gael i'r cleifion ar y silff daflenni yn y dderbynfa. Nid oedd y slipiau hyn yn amlwg iawn ac nid oeddent wedi eu hysbysebu ychwaith.

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod holiaduron wedi bod ar gael yn y gorffennol i gasglu adborth ar brofiadau cleifion ond nad oedd gan yr adran broses safonol i gasglu adborth. Hefyd, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ganlyniadau na gwybodaeth am gamau a gymerwyd yn dilyn yr holiaduron blaenorol wedi cael eu harddangos.

Dywedodd mwy na hanner y staff a gwblhaodd ein harolwg staff fel rhan o'r broses arolygu nad oeddent yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth a gasglwyd gan y cleifion. Hefyd, dywedodd 75 y cant o'r staff nad oeddent yn gwybod a oedd adborth cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn yr adran.

---

<sup>3</sup> 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Pryderon yw materion a nodir yn sgil digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion, cwynion ac, o safbwynt cyrff GIG Cymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru.

<sup>4</sup> <https://www.nhs.uk/nhs-services/hospitals/what-is-pals-patient-advice-and-liaison-service/>

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i gasglu adborth gan gleifion fel mater o drefn ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i roi diweddariadau rheolaidd i'r staff a'r cleifion am yr adborth a geir gan gleifion ar eu profiadau o'r gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerir.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, roedd gan y staff ymwybyddiaeth ddigonol o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd yn unol â Rheoliadau 2017.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i atal heintiau a chynnal gwaith dihalogi effeithiol yn yr adran.

Rhoddodd trafodaethau â staff yn ystod ein harolygiad sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at nifer o feysydd gan gynnwys yr angen i sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig yn adlewyrchu arferion clinigol yn gywir a bod y ddogfennaeth berthnasol yn cael ei chwblhau i ddangos bod y gwiriadau gofynnol wedi cael eu cynnal cyn triniaethau.

## Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

### Dyletswyddau cyflogwr

#### *Adnabod cleifion*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol ar waith i'r staff ei dilyn er mwyn adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio. Nod y weithdrefn hon yw sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir ag ymbelydredd Ïoneiddio yn unol â gofynion Rheoliadau 2017. Roedd y weithdrefn yn nodi bod disgwyl i'r staff gadarnhau enw llawn, cyfeiriad cartref a dyddiad geni'r claf. Mae'r dull hwn yn unol â chanllawiau presennol y DU<sup>5</sup>.

Roedd y weithdrefn hefyd yn disgrifio'r camau y dylai'r staff eu cymryd os byddant yn dod i gysylltiad â mathau gwahanol o gleifion, gan gynnwys unigolion yr ystyrir

---

<sup>5</sup> Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017

o bosibl nad oes ganddynt alluedd, cleifion pediatrig a chleifion na allant gyfathrebu yn Saesneg.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir i adnabod cleifion cyn unrhyw archwiliadau. Hefyd, dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'n harolwg y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn y driniaeth. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a ddarparwyd fel rhan o'n harolygiad yn cynnwys archwiliad o ffurflenni atgyfeirio a gyflwynwyd i'r adran. Fel rhan o'r archwiliad, aseswyd cyflawnder sampl o ffurflenni cais yr adran. Edrychwyd ar 83 o ffurflenni atgyfeirio a gwelwyd nad oedd y gwiriadau adnabod cleifion ar 10 y cant o'r ffurflenni wedi cael eu cofnodi'n gywir.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd diweddarau dogfennaeth berthnasol fel mater o drefn er mwyn dangos bod gwiriadau adnabod cleifion wedi cael eu cynnal cyn i'r cleifion ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

#### *Unigolion o oedran beichiogi (holi am feichiogrwydd)*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer canfod a allai unigolyn o oedran beichiogi fod yn feichiog neu'n bwydo ar y fron, cyn cynnal archwiliad meddygaeth niwclear. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson.

Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn yn dibynnu ar ymatebion yr unigolyn. Roedd y manylion yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid gofyn iddynt am feichiogrwydd neu fwydo ar y fron, sef rhwng 12 a 55 oed. Yn ogystal â gweithdrefn y cyflogwr, roedd siart llif ar holi ynghylch beichiogrwydd ar gael i'r staff ei ddilyn.

Wrth edrych ar y wybodaeth a oedd ar gael, nodwyd bod y canllawiau mewn perthynas â phrofion beichiogrwydd yn aneglur a nodwyd rhai anghysondebau hefyd rhwng y weithdrefn a'r siart llif. Roedd y siart llif yn dangos bod profion beichiogrwydd yn cael eu defnyddio fel rhan o'r broses wirio, ond mae'r weithdrefn ysgrifenedig yn dweud y dylid ond ystyried profion beichiogrwydd mewn trafodaeth â'r atgyfeiriwr a'r ymarferydd. Nid oedd y weithdrefn ysgrifenedig yn disgrifio'r broses a ddangosir yn y siart llif ar gyfer defnyddio canlyniadau'r prawf beichiogrwydd.

Fel y nodwyd eisoes, cadarnhaodd y staff fod gwybodaeth am ymholiadau ynghylch beichiogrwydd a bwydo ar y fron yn cael ei hanfon at gleifion gyda'u



llythyr apwyntiad. Hefyd, gwelsom fod posteri wedi'u harddangos yn yr adran yn hysbysu cleifion y dylent siarad ag aelod o'r staff os ydynt yn feichiog neu'n meddwl y gallent fod yn feichiog.

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymholiadau gofynnol, a oedd yn unol â gweithdrefn y cyflogwr a ddisgrifir uchod. Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion atgyfeirio cleifion ac roedd pob un ohonynt yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau o statws beichiogrwydd wedi cael eu cynnal a'u cofnodi gan y staff. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd ymholiadau am statws bwydo ar y fron wedi cael eu cofnodi yn achos dau glaf perthnasol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â holi am feichiogrwydd a bwydo ar y fron ei hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cynnwys digon o fanylion am y broses y dylai'r staff ei dilyn.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal o'r siart llif ar holi ynghylch beichiogrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r weithdrefn y cytunwyd arni yn gywir.

#### *Cysylltiadau â delweddu anfeddygol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol ar waith mewn perthynas â chysylltiadau anfeddygol<sup>6</sup> a gyflawnir yn y bwrdd iechyd. Cawsom wybod nad oedd cysylltiadau anfeddygol yn cael eu cyflawni yn yr adran meddygaeth niwclear.

#### *Canllawiau atgyfeirio*

Mae'r canllawiau atgyfeirio sydd ar waith yn seiliedig ar gyhoeddiad iRefer Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, sy'n nodi'r canllawiau atgyfeirio ac yn rhoi syniad o'r dos o ymbelydredd ar gyfer unigolion sydd am atgyfeirio claf ar gyfer delweddu. Cawsom wybod bod y canllawiau hyn ar gael yn hawdd i bob gweithiwr gofal

---

<sup>6</sup> Mae cysylltiadau â delweddu anfeddygol yn cynnwys cysylltiadau sy'n ymwneud ag asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnffudo a dibenion yswiriant. Gall y rhain gael eu cyflawni hefyd er mwyn nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff.

iechyd proffesiynol a gyflogir gan GIG Cymru a'u bod hefyd ar gael ar fewnwyd y bwrdd iechyd.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas ag atgyfeiriadau a chanllawiau atgyfeirio i unigolion eu dilyn. Roedd y wybodaeth yn y ddogfen hon yn nodi y caiff atgyfeiriadau eu derbyn gan atgyfeirwyr awdurdodedig, ar yr amod eu bod yn unol â'r canllawiau penodedig ar gyfer atgyfeirio cleifion i'r adran. Roedd y wybodaeth ofynnol yn cynnwys manylion perthnasol y claf, enw a llofnod yr atgyfeiriwr, yr archwiliad sydd ei angen a digon o ddata meddygol i gyfiawnhau'r cysylltiad.

Roedd y weithdrefn yn nodi os nad oedd y ffurflen atgyfeirio yn cynnwys digon o fanylion i fodloni'r meini prawf penodedig, dylid ei dychwelyd i'r atgyfeiriwr.

Wrth ddarllen y weithdrefn, gwelwyd ei bod yn cyfeirio at ganllawiau atgyfeirio'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer delweddu. Fodd bynnag, efallai nad yw'r ddogfen hon yn briodol i'w defnyddio gan fod canllawiau mwy diweddar ar gael sy'n benodol i'r DU ac sy'n adlewyrchu arferion clinigol modern (iRefer).

Roedd gweithdrefn y cyflogwr yn disgrifio'r broses ar gyfer atgyfeirio claf i'r adran; caiff ffurflen atgyfeirio bapur ei chwblhau gan yr atgyfeiriwr a'i hanfon wedyn i'r adran meddygaeth niwclear â llaw, drwy'r post neu'n electronig. Yna caiff yr atgyfeiriadau eu sganio/lanlwytho i'r System Gwybodaeth Radioleg (RadIS)<sup>7</sup>. Efallai y caiff llythyrau atgyfeirio eu hanfon i'r adran hefyd, fodd bynnag, roedd y weithdrefn yn nodi bod staff yr adran wedyn yn gyfrifol am drawsgrifio'r manylion perthnasol yn y llythyr ar ffurflen atgyfeirio a sganio'r llythyr ar RadIS.

Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom edrych ar hapsampl o ddogfennau atgyfeirio cleifion cyfredol ac ôl-weithredol a dderbyniwyd gan yr adran. Ar y cyfan, roedd y ffurflenni atgyfeirio wedi'u cwblhau i safon ddigonol. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at broblemau gydag un atgyfeiriad ôl-weithredol a ddaeth i law drwy lythyr. Ar ôl derbyn y llythyr hwn, ni chafodd y wybodaeth ei thrawsgrifio ar ffurflen atgyfeirio bapur ac ni chafodd y llythyr ei sganio ar RadIS, fel y disgrifir yng ngweithdrefn y cyflogwr. Trafodwyd y mater hwn â'r staff a chawsom wybod nad yw gweithdrefn y cyflogwr yn adlewyrchu arferion presennol yr adran. Dylai'r cyflogwr adolygu'r weithdrefn atgyfeirio a'r meini prawf atgyfeirio ac ystyried y ffordd orau o safoni'r broses atgyfeirio. Dylai'r adolygiad hwn ystyried y risg bosibl o wallau wrth

---

<sup>7</sup> Mae System Gwybodaeth Radioleg Cymru Gyfan (WRIS), RadIS, sy'n ei gwneud yn bosibl i holl sefydliadau GIG Cymru rannu gwybodaeth er mwyn darparu gofal di-dor i gleifion, ar gael i bob bwrdd iechyd yng Nghymru.

drawsgrifio gwybodaeth o lythyrau atgyfeirio yn erbyn y risg o golli'r wybodaeth fanwl a geir yn y llythyrau hyn.

Tynnwyd sylw at broblemau eraill mewn perthynas â'r llythyr atgyfeirio dan sylw, gan ei bod yn aneglur pa unigolyn awdurdodedig a oedd wedi llofnodi'r atgyfeiriad i gadarnhau bod cyfiawnhad<sup>8</sup> a pha unigolyn awdurdodedig a oedd wedi awdurdodi'r<sup>9</sup> driniaeth cyn y cysylltiad. Mae'r broblem hon wedi cael ei nodi hefyd o dan yr is-bennawd 'Cyfiawnhad dros Gysylltiadau Meddygol'.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr ddiweddarau'r weithdrefn mewn perthynas ag atgyfeiriadau a'r canllawiau atgyfeirio er mwyn dileu'r cyfeiriad at ganllawiau atgyfeirio'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer delweddu.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r holl weithdrefnau mewn perthynas ag atgyfeiriadau a'r canllawiau atgyfeirio er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir y prosesau atgyfeirio y cytunwyd arnynt sydd ar waith yn yr adran.

#### Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi rolau gwahanol y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio, cyfiawnhau a chynnal archwiliadau meddygol niwclear o dan y Rheoliadau. Roedd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r deiliaid dyletswydd penodol yn unol â'r

---

<sup>8</sup> Mae 'cyfiawnhad' yn cyfeirio at y broses o bwysu a mesur manteision disgwylidig cysylltiad yn erbyn niwed posibl y dos ymbelydredd cysylltiedig.

<sup>9</sup> Mae 'awdurdodi' yn cyfeirio at y dystiolaeth bod cyfiawnhad wedi cael ei roi.

Rheoliadau, sef atgyfeiriwr<sup>10</sup>, ymarferydd<sup>11</sup> a gweithredwr<sup>12</sup>. Ar y cyfan, roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r gofynion i ddeiliaid dyletswyddau.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos y cafodd Grŵp Cysylltiadau Meddygol y bwrdd iechyd, a gaiff ei gadeirio gan yr arweinydd clinigol ar gyfer radioleg, ei sefydlu er mwyn goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r polisi hwn ac ystyried materion yn ymwneud â diogelwch cleifion sy'n codi o gysylltiadau meddygol yn y bwrdd iechyd. Mae'r polisi yn nodi bod y Grŵp Cysylltiadau Meddygol yn gyfrifol am awdurdodi rheolwyr adrannau unigol i roi hawl i staff yn eu maes cyfrifoldeb fod yn ymarferwyr a gweithredwyr ar gyfer cwmpasau ymarfer penodedig, yn ogystal â rhoi cyngor ar ofynion hyfforddi deiliaid dyletswyddau.

Roedd y polisi hefyd yn cynnwys manylion am y gofynion o ran hyfforddiant, profiad a chymhwysedd y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall unigolyn gael hawl ffurfiol i fod yn ddeiliad dyletswydd.

Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant, cymhwysedd a hawliau deiliaid dyletswydd. Ar y cyfan, roedd y cofnodion hyfforddiant a ddarparwyd yn ddigonol. Fodd bynnag, roedd rhai problemau gyda'r wybodaeth a welwyd; nid oedd un o'r cofnodion a welwyd yn cynnwys tystiolaeth glir bod yr aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas mewn perthynas ag amddiffyn rhag ymbelydredd a rhwymedigaethau statudol sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio fel y'u nodir yn Atodlen 3, Tabl 1<sup>13</sup> yn Rheoliadau 2017. Nid oedd cofnod hyfforddiant arall yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod cymhwysedd yr unigolyn wedi cael ei asesu.

Hefyd, nodwyd bod y cofnod asesu a hyfforddiant gweithredwr ar gyfer yr uwcharolygydd meddygaeth niwclear wedi cael ei asesu a'i lofnodi gan ddau radiograffydd sy'n gweithio yn yr adran, sy'n atebol i'r uwcharolygydd. Nid yw hyn

---

<sup>10</sup> O dan y Rheoliadau, mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer cysylltiadau meddygol

<sup>11</sup> O dan y Rheoliadau, mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am gysylltiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau cysylltiadau meddygol.

<sup>12</sup> O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), ystyr gweithredwr yn unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gysylltiad meddygol.

<sup>13</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2017/1322/schedule/3/made>

yn briodol yn ein barn ni a byddem yn awgrymu y byddai uwcharolygydd arweiniol yr adran radioleg wedi bod yn aseswr/llofnodwr mwy addas.

Er i ni gael tystiolaeth o drwyddedau ymarferwyr, ni ddarparwyd gwybodaeth i ddangos hyfforddiant na hawliau'r ymarferwyr. Ymdrinnir yn fanylach â'r mater hwn yn yr adran 'Hawliau'.

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer hysbysu'r staff am unrhyw newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn yr adran. Caiff y newidiadau perthnasol eu trafod gan aelodau'r tîm ac yna eu cofnodi mewn neges ebost. Cawsom wybod bod yn rhaid i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y weithdrefn newydd neu'r weithdrefn sydd wedi'i diweddarau.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod tystiolaeth glir ar gael i ddangos bod deiliaid dyletswydd wedi cael yr hyfforddiant gofynnol, yn ogystal â thystiolaeth glir o asesiad cymhwysedd.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod cofnodion hyfforddiant ac asesu deiliaid dyletswydd yn cael eu hadolygu a'u llofnodi gan reolwr ar lefel uwch.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod cofnodion hyfforddiant a chymhwysedd yn cael eu cadw ar gyfer pob deiliad dyletswydd sy'n gweithio yn yr adran, gan gynnwys ymarferwyr, atgyfeirwyr anfeddygol a'r staff hynny sy'n darparu cymorth ffiseg feddygol.

### Cyfiawnhad dros Gysylltiadau Meddygol Unigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol yn yr adran. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod cyfiawnhad dros gysylltiadau meddygol unigol yn cael ei gofnodi ar y ffurflenni atgyfeirio papur a gyflwynir, drwy lofnod gan ymarferydd. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r broses gyfiawnhau ac awdurdodi.

Roedd tystiolaeth arall a ddarparwyd yn dangos bod canllawiau ar awdurdodiadau dirprwyedig wedi cael eu llunio gan ymarferydd penodedig. Mae rhai o'r gweithredwyr wedi cael hawl i awdurdodi cysylltiadau yn unol â'r canllawiau ar awdurdodiadau dirprwyedig ar yr adegau hynny pan nad yw'n ymarferol i ymarferydd wneud hynny. Gall gweithredwyr sy'n gweithio o dan y

canllawiau ar awdurdodiadau dirprwyedig awdurdodi'r cysylltiad drwy lofnodi'r adran briodol ar y ffurflen atgyfeirio.

Fel y nodwyd eisoes, roedd problemau gydag un llythyr atgyfeiriad a dderbyniodd yr adran. Ar ôl adolygu'r mater, roedd hi'n aneglur pa ymarferwyr awdurdodedig a oedd wedi cyfiawnhau ac awdurdodi'r driniaeth cyn y cysylltiad. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd llofnodi dogfennau atgyfeirio'n glir fel bod modd darllen yr enw a gofnodir.

Rhaid cyfiawnhau cysylltiadau meddygol unrhyw ofalwr a chysurwr hefyd. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas â chyfyngiadau dosau a chanllawiau ar gysylltiadau meddygaeth niwclear â gofalwyr a chysurwyr. Mae'r weithdrefn yn nodi'r camau y dylai'r staff eu dilyn i gyfiawnhau ac awdurdodi'r cysylltiadau hynny, a sicrhau bod yr unigolyn yn cael gwybodaeth ddigonol, gan gynnwys y manteision a'r risgiau. Gall gweithredwyr awdurdodedig awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr yn unol â dwy set wahanol o ganllawiau ar awdurdodiadau dirprwyedig a luniwyd gan yr ymarferwyr.

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn nodi os na all y gweithredwr awdurdodi cysylltiad i ofalwr a chysurwr, yna rhaid i ymarferydd adolygu a chyfiawnhau'r cysylltiad (lle bo hynny'n briodol). Rhaid i unigolion ddarllen a llofnodi ffurflen gydsynio i gadarnhau eu bod yn deall y risg a'u bod yn cytuno i ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir. Ar ôl iddi gael ei llofnodi, caiff y ffurflen gydsynio ei sganio ar gofnod y claf perthnasol ar RADIS. Wrth drafod â'r arbenigwr ffiseg feddygol, gwnaethom awgrymu y dylid diwygio gweithdrefn y cyflogwr gan ddileu'r eithriadau ar gyfer cysylltiadau dos isel i ofalwyr a chysurwyr ac y dylai'r cysylltiadau hyn gael eu cynnwys yn y canllawiau ar awdurdodiadau dirprwyedig perthnasol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod pob cysylltiad meddygol wedi'i gyfiawnhau ac y gellir gweld pwy yw'r ymarferydd unigol (neu'r gweithredwr o dan y canllawiau ar awdurdodiadau dirprwyedig) sy'n cyfiawnhau ac yn awdurdodi pob cysylltiad.

Dylid adolygu gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer cysylltiadau gofalwyr a chysurwyr ym maes meddygaeth niwclear er mwyn dileu'r eithriad mewn perthynas â chysylltiadau dos isel i ofalwyr a chysurwyr.

## Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio<sup>14</sup> cysylltiadau cleifion. Er enghraifft, cawsom wybod bod gosodiadau ar gyfer maint y dos neu gaffael delweddau yn cael eu haddasu yn unol â maint a symudedd y cleifion dan sylw. Hefyd, mae arbenigwyr ffiseg feddygol yn cynghori ac yn cyfrannu at y broses optimeiddio drwy gwblhau gwiriadau rheolaidd o gyfarpar yr adran a dosau cleifion a chynnal archwiliadau rheolaidd, a all arwain at argymhellion i optimeiddio triniaethau penodol. Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff dosau cysylltiadau eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cawsom wybod bod trefniadau ar waith i sicrhau y caiff cysylltiadau cleifion pediatrig eu hoptimeiddio. Caiff dosau pediatrig eu cyfrifo gan ddefnyddio pwysau'r claf er mwyn pennu'r dos priodol gofynnol. Roedd ffactorau graddio yn cael eu harddangos yn yr ystafell feddyginiaethau yn yr adran er mwyn rhoi arweiniad i'r staff.

Yn ôl gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer canfod p'un a yw unigolion o oedran beichiogi yn feichiog neu'n bwydo ar y fron, rhaid i'r staff gael cyngor gan ymarferydd meddygaeth niwclear neu arbenigwr ffiseg feddygol os yw'r claf yn bwydo ar y fron. Dylai'r cyflogwr ystyried cynnwys mwy o fanylion i'r staff yn y weithdrefn am optimeiddio cysylltiadau ar gyfer cleifion sy'n bwydo ar y fron a darparu canllawiau safonol ar gyfer archwiliadau mwy cyffredin a gynhelir gyda'r math hwn o glaf.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr ystyried cynnwys canllawiau ychwanegol yng ngweithdrefn y cyflogwr ar optimeiddio cysylltiadau ar gyfer cleifion sy'n bwydo ar y fron.

### *Lefelau cyfeirio diagnostig*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig. Roedd y weithdrefn yn nodi bod lefelau cyfeirio diagnostig meddygaeth niwclear yn cael eu pennu a'u hadolygu gan arbenigwr ffiseg feddygol a'u trosglwyddo i arweinydd yr adran. Cawsom wybod bod y staff yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i lefelau cyfeirio diagnostig fel y bo angen. Gwelsom hefyd fod y gweithdrefnau gweithredu

---

<sup>14</sup> Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

safonol a'r lefelau cyfeirio diagnostig sefydledig lleol ar gyfer pob math o archwiliad meddygaeth niwclear yn cael eu harddangos yn yr adran er gwybodaeth i'r staff.

Mae'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol sydd ar waith yn seiliedig ar ganllawiau'r Pwyllgor Cyngori ar Roi Sylweddau Ymbelydrol<sup>15</sup> a'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol. Caiff y lefelau cyfeirio diagnostig lleol eu hadolygu fel rhan o archwiliadau'r arbenigwyr ffiseg feddygol. Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw gweithdrefn y cyflogwr yn cynnwys digon o fanylion am y broses adolygu nac amllder y lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer meddygaeth niwclear. Dylai'r cyflogwr ystyried diweddarau'r wybodaeth hon yn y weithdrefn.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn nodi mai Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd y bwrdd iechyd a fydd bellach yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw lefelau cyfeirio diagnostig newydd. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y newid hwn wedi'i nodi yng ngweithdrefn y cyflogwr.

Cawsom wybod bod yr ystod goddefiant y cytunwyd arni ar gyfer dosau o fewn 10 y cant y naill ochr a'r llall i'r lefel gyfeirio ddiagnostig a bennwyd. Rhaid i faint y dos a roddir i bob claf gael ei gofnodi mewn tri man; ar y ffurflen atgyfeirio, ar RADIS ac ar y cofnod dosau a gedwir yn yr ystafell feddyginiaethau. Fodd bynnag, ar ôl trafod â'r staff ac edrych ar y dogfennau, gwelwyd bod rhai aelodau o'r staff yn cofnodi'r union ddos os oedd islaw'r lefel gyfeirio ddiagnostig a bennwyd, ond eu bod ond yn cofnodi'r lefel gyfeirio ddiagnostig leol os oedd y dos mesuredig hyd at 10 y cant yn fwy na'r lefel honno.

Rhaid i'r staff gofnodi'r dos a fesurwyd ac a roddwyd i'r cleifion yn gywir. Trafodwyd y mater ag uwch-aelodau o'r staff a chytunwyd y dylid atgoffa'r staff bod angen cofnodi'r union ddosau a gaiff eu mesur a'u rhoi i'r cleifion. Hefyd, dylid diweddarau'r ddogfennaeth berthnasol er mwyn cael cofnod clir o'r lefelau goddefiant y cytunwyd arnynt.

Roedd proses ar waith i sicrhau bod unrhyw ddosau sy'n fwy na'r lefelau goddefiant y cytunwyd arnynt ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.

---

<sup>15</sup> Pwyllgor arbenigol ar gyfer y Deyrnas Unedig yw'r Pwyllgor Cyngori ar Roi Sylweddau Ymbelydrol (ARSAC), a noddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r pwyllgor yn cynghori'r llywodraeth ar y defnydd o sylweddau ymbelydrol a thrwyddedau ar gyfer cyflogwyr ac ymarferwyr.



Ar gyfer delweddau CT (tomograffeg gyfrifiadurol) a ddefnyddir fel rhan o ddelweddau SPECT-CT<sup>16</sup>, dywedwyd wrthym fod yn rhaid i'r staff gofnodi'r ffactorau dos yn y cofnodlyfr o achosion lle rhagorir ar y lefelau cyfeirio diagnostig a bod y wybodaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel rhan o raglen archwilio'r arbenigwyr ffiseg feddygol, er mwyn sicrhau bod camau cywiro'n cael eu cymryd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig er mwyn sicrhau bod digon o fanylion am y broses adolygu ac amlder lefelau cyfeirio diagnostig meddygaeth niwclear.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig yn cael ei diweddarau er mwyn nodi rôl y Grŵp Amddiffyn rhag Ymbelydredd.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y dogfennau perthnasol yn cael eu diweddarau fel bod cofnod clir o'r lefelau goddefiant y cytunwyd arnynt ar gyfer dosau a sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cofnodi'r union ddos a fesurwyd ac a roddwyd i'r cleifion.

### *Gwerthusiadau clinigol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn a oedd yn nodi'r broses ar gyfer cynnal gwerthusiadau clinigol o gysylltiadau meddygol. Mae Rheoliadau 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cysylltiad meddygol gael ei werthuso'n glinigol gan weithredwr awdurdodedig, ac i'r gwerthusiad gael ei gofnodi. Felly, rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau gwerthuso clinigol digonol ar waith.

### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Roedd gan y cyflogwr restr o'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth am gyfarpar sydd ei hangen o dan Reoliadau 2017. Hefyd, gwelwyd bod naw o'r 12 darn o gyfarpar yn hwyr yn cael profion diogelwch trydanol.

---

<sup>16</sup> Delweddau a ddefnyddir i fesur rhai o swyddogaethau'r corff. Caiff cleifion eu chwistrellu â dos bach o ddeunydd ymbelydrol ac yna mae'n rhaid iddynt orwedd yn y peiriant sy'n casglu allyriadau pelydrau gamma o'r deunydd.

Cawsom wybod bod gweithdrefn ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas â sicrhau ansawdd gweithdrefnau a chyfarpar y cyflogwr. Fodd bynnag, ar ôl edrych ar y ddogfen hon, gwelwyd mai ychydig o wybodaeth oedd ar gael i ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd cyfarpar.

Roedd llawlyfr sicrhau ansawdd cyfarpar ar gael a oedd yn nodi'r wybodaeth berthnasol, gan gynnwys pa mor aml y caiff cyfarpar ei brofi yn yr adran. Cawsom wybod mai'r arbenigwr ffiseg feddygol sy'n cydlynu ac yn gweithredu'r rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar. Mae'r gwyddonydd clinigol yn rheoli ansawdd cyfarpar o bryd i'w gilydd hefyd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y rhestr o'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran ei diweddarau er mwyn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen o dan Reoliadau 2017.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod profion diogelwch trydanol yn cael eu cwblhau ar bob darn o gyfarpar a restrir fel rhai sy'n aros am brawf.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig ar waith sy'n rhoi cofnod clir o'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer cyfarpar.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr adran ar lawr daear yr ysbyty ac roedd mynediad gwastad i bob rhan ohoni. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion ag anawsterau symudedd gyrraedd a gadael yr adran yn ddiogel.

Roedd trefniadau ar waith i hybu diogelwch y staff, y cleifion ac ymwelwyr. Er enghraifft, roedd arwyddion a threfniadau cyfyngu ar fynediad ar waith er mwyn rhwystro ac atal pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn i ardaloedd lle roedd cyfarpar radioleg yn cael ei ddefnyddio.

Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da ond gwelsom fod difrod i'r plastrfwrdd uwchben soced trydan yn ystafell aros yr adran. Hefyd, roedd difrod i'r defnydd ar flaen un o'r seddi yn yr ystafell aros.

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'n harolwg staff yn dangos y byddai pob aelod o'r staff yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon ynglŷn ag arferion clinigol anniogel ac y byddent yn teimlo'n ddiogel yn gwneud hynny.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn ystafell aros yr adran.

### Atal a rheoli heintiau

Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus yn ystod ein hymweliad. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer atal heintiau a dihalogi'n effeithiol yn yr adran. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau hyn wedi'u hatgyfnerthu yn sgil COVID-19.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod gweithdrefnau glanhau wedi gwella a chafwyd disgrifiad o rai o'r trefniadau a oedd ar waith, gan gynnwys sicrhau bod ardaloedd perthnasol yn cael eu glanhau fel mater o drefn ar ôl pob claf. Dangosodd adborth gan y staff eu bod yn cytuno bod trefniadau dihalogi ar waith ar gyfer cyfarpar ac ardaloedd perthnasol yn yr adran.

Cawsom wybod bod gwybodaeth yn cael ei hanfon at y cleifion gyda'u llythyr apwyntiad yn nodi na ddylent fynychu eu hapwyntiad os oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Cawsom wybod hefyd fod unrhyw glaf mewnol sydd ag apwyntiad yn yr adran yn cael ei brofi ar gyfer COVID-19 fel mater o drefn.

Fel y nodwyd eisoes, roedd y seddi yn ardal aros yr adran wedi cael eu had-drefnu er mwyn cadw pellter cymdeithasol, ac roedd arwyddion wedi'u gosod ar y seddi na ddylid eu defnyddio. Cawsom wybod bod y seddi'n cael eu glanhau bob awr. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, gwelsom ddifrod i ddefnydd un o'r seddi a oedd yn golygu na fyddai modd ei glanhau'n effeithiol.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'n harolwg fod yr adran yn 'lân iawn' neu'n 'weddol lân' yn eu barn nhw, a chadarnhaodd pob un ohonynt bod y gweithdrefnau a welsant ar waith yn ystod eu hamser yn yr adran yn cydymffurfio â mesurau COVID-19 yn eu barn nhw. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion a gawsom i'n harolwg staff yn dangos bod tri aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran yn teimlo nad oedd addasiadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud i amgylchedd yr adran neu'r arferion sydd ar waith.

Cawsom wybod ei bod yn ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ar atal a rheoli heintiau. Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant y staff a gwelwyd nad oedd hyfforddiant atal a rheoli heintiau dau aelod o'r staff yn gyfredol mwyach.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff yn dangos bod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cyfarpar diogelu personol yn cael ei storio yn yr adran a bod y staff yn gallu casglu cyfarpar ychwanegol yn ôl yr angen. Hefyd, cawsom wybod bod pob aelod o'r staff wedi cael prawf ffitio ar gyfer cyfarpar diogelu personol a'u bod wedi cael hyfforddiant ar wisgo a diosg<sup>17</sup>.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod safbwyntiau staff yr adran yn cael eu casglu er mwyn sicrhau, lle y bo modd, fod yr addasiadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd a'r arferion sydd ar waith o ran COVID-19.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon am ddiogelu. Cawsom wybod bod canllawiau a chymorth diogelu ar gael ar fewnwyd y bwrdd iechyd. Cawsom wybod hefyd ei bod yn ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar-lein. Roedd y sampl o gofnodion hyfforddiant staff a welwyd yn dangos bod hyfforddiant diogelu'r staff i gyd yn gyfredol ar adeg ein harolygiad.

## Gofal effeithiol

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

#### *Archwiliadau clinigol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith o'r enw 'Gweithdrefn ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol o driniaethau radiolegol yn ymwneud â'r Rheoliadau'. Fodd bynnag, wrth edrych ar y ddogfen hon, gwelwyd ei bod yn ymwneud ag archwiliadau o dan y Rheoliadau ac nid archwiliadau clinigol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r trefniadau sydd ar waith o ran yr archwiliadau clinigol a gynhelir yn yr adran. Dylai'r cyflogwr ddiweddarar

---

<sup>17</sup> Gwisgo – rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd

weithdrefn er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn gywir.

Rhodddwyd tystiolaeth i ddangos bod archwiliadau meddygaeth niwclear da yn cael eu cynnal yn yr adran. Dangosodd tystiolaeth hefyd fod staff perthnasol o fewn yr adran yn cymryd rhan yn y broses a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu o fewn yr adran, yn lleol ac yn genedlaethol. Rhodddwyd enghreifftiau o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r archwiliadau ond gwelsom nad oedd y canlyniadau neu'r newidiadau dilynol i ymarfer bob amser yn cael eu cofnodi'n glir ar y dogfennau archwilio.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig ar waith sy'n adlewyrchu'r trefniadau archwilio clinigol sydd ar waith yn yr adran meddygaeth niwclear yn gywir ac yn eu ffurfioli.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod canlyniadau a newidiadau i ymarfer o ganlyniad i archwiliadau clinigol yn cael eu cofnodi'n glir.

#### *Cyngor arbenigol*

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos y gallai'r adran radioleg gyfan gael cyngor a chymorth gan dri arbenigwr ffiseg feddygol, ac roedd dau o'r rhain yn arbenigwyr ym maes meddygaeth niwclear. Fel y nodwyd eisoes, cyflogwyd yr arbenigwyr ffiseg feddygol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac roedd cytundeb ar waith iddynt roi cymorth i'r adran. Roedd y tri arbenigwr ffiseg feddygol a neilltuwyd i roi cymorth wedi'u rhestru ar restr gymeradwy RPA 2000, sef y corff ardystiedig ar gyfer cydnabod arbenigwyr ffiseg feddygol.

Cawsom wybod bod arbenigwr ffiseg feddygol yn ymweld â'r adran unwaith y mis i roi cyngor a chymorth, yn ogystal â chyflawni tasgau fel sicrhau ansawdd a phrofi cyfarpar, hyfforddi'r staff ac asesu dosau cleifion. Hefyd, darparwyd tystiolaeth o'r archwiliad blynyddol a gynhaliwyd gan yr arbenigwr ffiseg feddygol mewn perthynas â pherfformiad cyfarpar, optimeiddio a chydymffurfiaeth o ran ansawdd. Roedd y ddogfen hon yn gynhwysfawr ac yn nodi'r camau gweithredu gofynnol a nodwyd o ganlyniad i'r archwiliad.

Dangosodd ein trafodaethau â staff yr adran fod ganddynt berthynas waith dda â'r arbenigwyr ffiseg feddygol. Cawsom wybod hefyd y gallai'r staff gysylltu ag arbenigwr ffiseg feddygol am gyngor a chymorth lle bo angen, ar sail ad hoc.

Gwelsom dystiolaeth o lythyr penodi ar gyfer arbenigwr ffiseg feddygol ond cafwyd ymholiadau gan y staff am y trefniadau ffurfiol sydd ar waith o ran y

gofynion capasiti a'r cwmpas ymarfer y cytunwyd arnynt ar gyfer arbenigwyr ffiseg feddygol. Trafodwyd yr ymholiadau hyn yn ddiweddarach â'r uwch-reolwyr a chawsom wybod bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe sy'n nodi manylion y trefniadau sydd ar waith. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw dystiolaeth o'r cytundeb hwn yn ystod ein harolygiad. O ystyried yr ymholiadau hyn, dylai'r cyflogwr sicrhau bod gwybodaeth am ofynion capasiti a chwmpas ymarfer ar gael i'r staff perthnasol.

Nid oedd dystiolaeth ar gael i ddangos bod arbenigwyr ffiseg feddygol wedi cael hawl fel gweithredwyr i gyflawni'r tasgau gofynnol yn yr adran. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym eu bod yn credu na allai'r arbenigwyr gael yr hawl i wneud hynny am nad oeddent yn cael eu cyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac y byddai eu hawliau yn cael eu cwmpasu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ac mae'n rhaid bod dystiolaeth ar gael i ddangos bod pob deiliad dyletswydd sy'n gweithio yn yr adran wedi cael yr hawl i wneud hynny. Ymdrinnir yn fanylach â'r mater hwn yn yr adran 'Hawliau'.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gwybodaeth ar gael sy'n nodi gofynion capasiti a chwmpas ymarfer yr arbenigwyr ffiseg feddygol sy'n rhoi cyngor a chymorth i'r adran.

#### *Ymchwil feddygol*

Mae'r adran yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n ymwneud â chysylltiadau meddygol ac roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn nodi bod yr adran yn cymryd rhan yn nhrefnol ymchwil ARAMIS, sef treial rhyngwladol ar gyfer cyffur canser y prostad. Fel rhan o'r treial, mae'r tîm radioleg yn Ysbyty Tywysog Philip yn cynnal sganiau CT a chaiff sganiau esgyrn eu cynnal yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg bob tri mis.

Roedd dystiolaeth ar gael i ddangos bod y trwyddedau cyflogwr ac ymarferwyr gofynnol ar gael er mwyn caniatáu i'r cysylltiadau meddygol ar gyfer yr ymchwil gael eu cynnal yn yr adran.

## **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth**

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd strwythur sefydliadol ar waith ar gyfer yr adran radioleg gyfan, ynghyd â llinellau adrodd clir.

Roedd tystiolaeth o weithlu profiadol ac ymrwymedig yn yr adran, gydag ethos gwaith tîm da. Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar lefel y cyfathrebu a'r cymorth gan arweinydd yr adran. Fodd bynnag, nodwyd pryderon ynghylch lefel y gefnogaeth a'r ymgysylltu gan uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Cyfeiriodd y staff at broblemau ynghylch capasiti'r adran i gyflawni'r tasgau perthnasol sy'n ofynnol yn rhinwedd eu rôl fel deiliaid dyletswydd.

## **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Roedd siart yn dangos trefniadaeth radioleg yr ysbyty ar gael, a oedd yn nodi llinellau adrodd clir ar gyfer y gwasanaeth cyfan, gan gynnwys yr adran meddygaeth niwclear.

Dywedodd arweinydd yr adran meddygaeth niwclear, gan fod gan yr adran dîm bach a oedd yn gweithio mewn ardal fach, y gallai trafodaethau rheolaidd gael eu cynnal ar y llwyth gwaith ar y pryd, unrhyw broblemau ac unrhyw newidiadau i'r prosesau sydd ar waith. Roedd yn amlwg o'r adborth a gawsom gan y staff bod yr adran yn cynnwys staff ymrwymedig, ac roedd ethos gwaith tîm da i'w weld.

Yn eu hadborth, dywedodd staff yr adran eu bod yn teimlo bod arweinydd yr adran yn cyfathrebu'n dda ac yn rhoi cymorth da iddynt. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon yn dilyn yr adborth gan staff am welededd uwch-reolwyr yn y gwasanaeth, ynghyd â lefel y gefnogaeth a'r ymgysylltu ganddynt. Er enghraifft, dywedodd aelodau o'r staff eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu cynnwys bob amser mewn penderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu rolau.

Cyn ein harolygiad, gofynnodd AGIC i uwch-aelodau o staff a staff yr adran gwblhau holiadur hunanasesu. Nod yr holiadur hwn yw rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â Rheoliadau 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno. Er ein bod wedi nodi nifer o anghysondebau yn yr ymatebion a roddwyd, roedd y staff wedi gallu rhoi gwybodaeth ychwanegol neu eglurhad yn ddi-oed yn y rhan fwyaf o'r meysydd a nodwyd gennym.

Ar ddiwrnodau ein harolygiad, sicrhodd yr uwch-reolwyr a staff yr adran eu bod ar gael, a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roedd y staff yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a nodwyd.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o wella gwelededd uwch-reolwyr yn yr adran meddygaeth niwclear, ynghyd â lefel yr ymgysylltu a'r gefnogaeth ganddynt.

#### Gofyniad i feddu ar drwydded

O dan y Rheoliadau, ni chaniateir unrhyw gysylltiad sy'n ymwneud â rhoi sylwedd ymbelydrol oni fydd y cyflogwr yn meddu ar drwydded ddilys ar gyfer y safle. Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod trwyddedau cyflogwr ac ymarferwyr dilys ar gael. Hefyd, roedd trefniadau ar waith i fonitro statws y trwyddedau gofynnol; cawsom wybod bod yr arbenigwr ffiseg feddygol yn cadw matrices o'r holl drwyddedau ARSAC a bod trwyddedau hefyd yn cael eu cynnwys yn archwiliad blynyddol yr arbenigwr ffiseg feddygol.

#### Dyletswyddau'r cyflogwr

##### *Hawliau*

Fel rhan o'n harolygiad, darparwyd tystiolaeth i ddangos bod cofnodion hawliau da yn cael eu cadw ar gyfer staff ar lefel gweithredwyr sy'n gweithio yn yr adran. Fodd bynnag, nodwyd rhai anghysondebau yn y sampl o gofnodion hyfforddiant, cymhwysedd a hawliau deiliaid dyletswydd a welsom, fel y nodir yn yr adran 'Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr' yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Fel y nodwyd eisoes, er bod tystiolaeth o drwyddedau ymarferwyr ar gael, ni ddarparwyd gwybodaeth i ddangos hyfforddiant na hawliau'r ymarferwyr. Hefyd,



nid oedd tystiolaeth i ddangos bod arbenigwyr ffiseg feddygol neu wyddonwyr clinigol sy'n cyflawni tasgau yn y gwasanaeth wedi cael yr hawl i wneud hynny. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod pob deiliad dyletswydd wedi cael hawl.

Wrth fynd drwy'r dogfennau a ddarparwyd mewn perthynas â hawliau deiliaid dyletswydd, nodwyd bod anghysondebau a rhywfaint o ddyblygu yn y wybodaeth. Ym matrices hyfforddiant yr adran meddygaeth niwclear, roedd rhai tasgau wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd i gwmpasu ystod eang iawn o dasgau ac nid oedd lefel manylder y matrices hwn yn gyson â'r cofnodion hyfforddiant a chymhwysedd. Dylai'r dogfennau ddisgrifio pob tasg neu swyddogaeth ar wahân, er enghraifft, dylai gwerthuso delweddau ac atgyfeirio ar gyfer delweddau ychwanegol fod yn ddwy dasg ar wahân.

Trafodwyd hyn â'r staff a chytunwyd y byddai'n fuddiol adolygu'r dogfennau perthnasol ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses hawliau y cytunwyd arni yn gywir, yn ogystal â sicrhau bod llai o'r cynnwys yn cael ei ddyblygu, gan fod hyn yn peri risg bod gwybodaeth anghyson a/neu anghyfredol ar gael i'r staff.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod pob deiliad dyletswydd wedi cael hawl, yn unol â'r weithdrefn ysgrifenedig y cytunwyd arni.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod dogfennau hawliau yn cael eu hadolygu er mwyn cadarnhau bod y manylion yn adlewyrchu'r weithdrefn y cytunwyd arni yn gywir, a sicrhau bod llai o ddyblygu o fewn y dogfennau perthnasol.

#### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr mai Prif Weithredwr y bwrdd iechyd oedd wedi'i ddynodi'n gyflogwr o dan y Rheoliadau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym er bod y cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr wedi'i neilltuo i'r Prif Weithredwr, fod y Prif Weithredwr wedi dirprwyo'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau i Gyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd y bwrdd iechyd. Roedd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio yn nodi'r cyfrifoldebau am reoli diogelwch ymbelydredd yn y bwrdd iechyd.

Yn eu hadborth, mynegodd aelodau o staff yr adran rai pryderon am hygyrchedd gweithdrefnau cyfredol gan y cyflogwr yn ogystal â gallu'r staff i gyfrannu at ddatblygu gweithdrefnau sy'n ymwneud â'u maes gwaith. O ganlyniad, cawsom

wybod am nifer o feysydd o fewn gweithdrefnau'r cyflogwr a ddarparwyd nad oeddent yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn yr adran meddygaeth niwclear yn gywir. O ystyried y problemau a nodwyd, dylid cynnal ymarfer gydag aelodau perthnasol o staff yr adran meddygaeth niwclear i adolygu a diweddarau gweithdrefnau'r cyflogwr, er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn adlewyrchu'r arferion gwirioneddol sydd ar waith yn yr adran meddygaeth niwclear.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar reoli dogfennau, a oedd yn nodi'r ffyrdd o reoli dogfennau, gan gynnwys diwygio a chyhoeddi gweithdrefnau a phrotocolau'r cyflogwr, er mwyn sicrhau arferion gwaith diogel. Roedd y weithdrefn hefyd yn nodi'r wybodaeth yr oedd angen ei chofnodi am fersiwn, awdur a chymeradwyaeth pob dogfen. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd sawl un o'r protocolau meddygaeth niwclear na'r gweithdrefnau gweithredu safonol a ddarparwyd fel tystiolaeth yn cynnwys y wybodaeth ofynnol a nodir yn y weithdrefn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, ar ôl edrych ar rai o weithdrefnau'r cyflogwr, gwnaethom nodi nad oedd sawl un ohonynt yn cynnwys y manylder na'r eglurder sydd eu hangen er mwyn i'r staff eu dilyn. Yn ystod trafodaethau â'r staff, cawsom sicrwydd ynghylch yr arferion sydd ar waith. Fodd bynnag, ar sawl achlysur, nid oedd yr arferion a ddisgrifiwyd yn adlewyrchu'r wybodaeth yn y weithdrefn ysgrifenedig gysylltiedig.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau cyfredol ar gael yn hawdd i holl staff yr adran.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y gweithdrefnau ysgrifenedig sydd ar waith yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn adlewyrchu'r arferion sydd ar waith yn yr adran meddygaeth niwclear.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod pob protocol ysgrifenedig sydd ar waith yn cynnwys y manylion gofynnol fel y nodir yng ngweithdrefn y cyflogwr ar reoli dogfennau.

#### *Cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol ac ymchwilio iddynt. Mae'r weithdrefn yn nodi'r broses i'w dilyn os amheuir bod cysylltiad damweiniol neu anfwriadol wedi digwydd yn yr adran.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod yn rhaid i'r staff hysbysu radiograffydd arweiniol y safle neu reolwr y gwasanaeth, a fydd yna'n sicrhau bod ymchwiliad manwl yn cael ei gynnal. Rhaid i wybodaeth berthnasol, a nodwyd yn y weithdrefn, gael ei chasglu a'i rhoi i'r arbenigwr ffiseg feddygol, a fydd yna'n cwblhau asesiad dos ac asesiad risg. Bydd yr arbenigwr ffiseg feddygol yn nodi a yw'r achos yn gysylltiad damweiniol neu anfwriadol sylweddol y mae angen rhoi gwybod i AGIC amdano. Yna, bydd y cyfarwyddwr clinigol radioleg yn penderfynu a yw'r cysylltiad damweiniol neu anfwriadol yn sylweddol o safbwynt clinigol er mwyn pennu a ddylid hysbysu'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r claf

Roedd gwybodaeth am ofynion hysbysu am ddigwyddiadau AGIC ar gael yn y weithdrefn, gan gynnwys dolen i ffurflen AGIC ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r Rheoliadau. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y ddolen hon yn gweithio mwyach. Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei diweddarau i gynnwys dolen sy'n gweithio er mwyn galluogi'r staff i gael y wybodaeth sydd ei hangen ar wefan AGIC<sup>18</sup>.

Roedd y weithdrefn yn nodi bod yn rhaid i'r adroddiad ar yr ymchwiliad gynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau lliniaru i'w cymryd er mwyn lleihau'r risg y bydd achosion tebyg yn digwydd yn y dyfodol. Hefyd, nodwyd bod yn rhaid i ddiweddariadau ar yr achos gael eu cyflwyno i Grŵp Cysylltiadau Meddygol y bwrdd iechyd eu hadolygu.

Cadarnhaodd uwch-reolwyr y caiff pob achos ac achos a fu bron â digwydd ei gofnodi drwy Datix, sef y system cofnodi digwyddiadau electronig. Cawsom wybod nad oes unrhyw gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol wedi digwydd yn yr adran meddygaeth niwclear dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol a amheuir ac ymchwilio iddynt.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol ac ymchwilio iddynt yn cael ei diweddarau i gynnwys dolen sy'n gweithio i'r adran berthnasol ar wefan AGIC.

---

<sup>18</sup> <https://agic.org.uk/rhoi-gwybod-am-ddigwyddiadau-yn-ymwneud-rheoliadau-ymbelydredd-ioneiddio-amlygiad-meddygol>

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Fel y nodwyd eisoes, fel rhan o'n harolygiad, darparwyd arolwg staff er mwyn rhoi'r cyfle i bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran fynegi barn. Hefyd, cynhaliwyd trafodaethau â'r uwch-reolwyr ar gyfer y gwasanaeth, yn ogystal â detholiad o'r staff sy'n gweithio yn yr adran.

Cafwyd adborth a oedd yn mynegi pryderon am lefelau staffio yn yr adran. Teimlai aelodau o'r staff nad oedd y lefelau staffio yn yr adran yn ddigonol bob amser i ateb y galw. Hefyd, mynegwyd pryderon am gapasiti radiolegwyr yn benodol. Cawsom wybod nad oes gan y gwasanaeth ddigon o radiolegwyr ymgynghorol i ateb y galw o ran adrodd. Felly, dibynnir yn fawr ar arweinydd yr adran fel yr unig radiograffydd sy'n adrodd ar feddygaeth niwclear.

Trafodwyd y pryderon hyn â'r uwch-reolwyr a chawsom wybod eu bod yn ymwybodol o'r problemau o ran prinder radiolegwyr ymgynghorol a bod hyn wedi'i restru fel un o risgiau'r bwrdd iechyd. Cawsom wybod bod y bwrdd iechyd yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau pellach â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r problemau capasiti. Hefyd, cawsom wybod bod adolygiad o gapasiti'r gweithlu radioleg yn mynd rhagddo ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan. O ystyried y pryderon a fynegwyd gan staff yr adran, argymhellwn fod adolygiad yn cael ei gynnal i bennu gofynion capasiti'r adran meddygaeth niwclear, er mwyn sicrhau bod llwythi gwaith y staff yn ymarferol a bod digon o gapasiti i ateb y galw am y gwasanaeth.

Mynegwyd rhagor o bryderon gan arweinydd yr adran mewn perthynas â diffyg lle i gyflawni tasgau adrodd. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau o ran y lle sydd ar gael yn yr adran, dylid gwneud ymdrech i sicrhau y gall yr aelodau perthnasol o'r staff fynd i'r ardaloedd dynodedig, pan fo angen, i'w galluogi i gyflawni'r tasgau adrodd gofynnol.

Dywedwyd wrthym fod proses ar waith i sicrhau y caiff pob aelod o'r staff arfarniad blynyddol. Cadarnhaodd pob aelod o staff yr adran, heblaw am arweinydd yr adran, eu bod wedi cael arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, dywedodd dau aelod o'r staff nad oeddent yn teimlo bod eu hanghenion hyfforddiant a datblygu wedi cael eu trafod fel rhan o'u harfarniad.

Fel y nodwyd eisoes, fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff yr adran a chawsom wybod bod trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth. Roedd y lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, ar ôl edrych ar y dystiolaeth a ddarparwyd, gwelwyd

bod tystysgrifau hyfforddi rhai aelodau o'r staff wedi dod i ben ar gyfer iechyd a diogelwch, y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac atal a rheoli heintiau.

Cawsom wybod bod trefniadau ar waith i alluogi'r staff i gael cymorth llesiant ychwanegol lle bo angen, drwy wasanaeth iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am faint o amser y bu'n rhaid i aelodau o'r staff aros i'r gwasanaeth gysylltu â nhw ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio. Hefyd, dangosodd yr adborth a gafwyd gan y staff nad oedd pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran yn gwybod sut i gael gafael ar y cymorth llesiant sydd ar gael.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o gapasiti'r gweithlu er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff sy'n gweithio yn yr adran meddygaeth niwclear ddigon o gapasiti i gyflawni eu rolau perthnasol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le ar gael i alluogi aelodau perthnasol o'r staff i gyflawni tasgau adrodd fel rhan o'u rôl.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran yn cael trafodaethau arfarnu rheolaidd â'i reolwr llinell, sy'n cwmpasu ei ofynion hyfforddiant a datblygu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yr adran wedi bodloni gofynion hyfforddiant gorfodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau presennol sydd ar waith o ran mynediad i gymorth iechyd galwedigaethol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob un o'r staff wybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt a sut i gael gafael arno.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad lle mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae rhoi hysbysiad diffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a all arwain at gamau cyfreithiol sifil neu droseddol.

Dylai cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd ([2018](#)).

Cynlluniwyd y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig â chysylltiad yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol
- Ni chaiff cleifion fwy o gysylltiad nag sydd ei angen i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn cyfyngiadau'r dechnoleg gyfredol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol yn cael eu diogelu

Rydym yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Bodloni safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd o flaen llaw o'n harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio. Caiff gwasanaethau hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC a chânt eu cefnogi gan Uwch-Swyddog Clinigol o Public Health England, sy'n gweithio fel cynghorydd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn perthynas ag ymbelydredd ìoneiddio.

Ceir manylion pellach am y [ffordd y mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg

**Ward/adran:** Yr Adran Meddygaeth Niwclear

**Dyddiad arolygu:** 27 a 28 Gorffennaf 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Ysbyty: Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg

### Ward/adran: Yr Adran Meddygaeth Niwclear

### Dyddiad arolygu: 27 a 28 Gorffennaf 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i hyrwyddo argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg / cymorth yn yr adran er mwyn helpu i gyflawni'r 'Cynnig Gweithredol'.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	<p>Defnyddio staff sy'n siarad Cymraeg ar gyfer cleifion sydd am siarad Cymraeg, a chyflawni'r 'Cynnig Gweithredol' lle bynnag y bo modd.</p> <p>Hyrwyddo'r defnydd o fathodynau i ddangos pa aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg.</p> <p>Parhau i ddilyn canllawiau'r bwrdd iechyd o ran cyflogi Siaradwyr Cymraeg. Hyrwyddo dysgu Cymraeg yn well ymhlith y staff yn yr adran ac ymgysylltu â thîm y Gymraeg yn y bwrdd iechyd.</p>	Arweinydd safle	Rhagfyr 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i roi gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion yn Gymraeg pan ofynnir am hynny.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Adolygu gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'i chyfieithu i'r Gymraeg. Ymgysylltu â Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg y bwrdd iechyd i ddatblygu diwylliant lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn gydradd â'r Saesneg yn yr adran.	Arweinydd safle	Mawrth 2022
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i gasglu adborth cleifion yn rheolaidd ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Ymgysylltu â thîm profiad y claf yn y bwrdd iechyd. Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o sut i gofnodi adborth cleifion drwy wasanaeth y bwrdd iechyd yn fforwm staff yr Adran Radioleg, a gynhelir bob mis. Anfonir e-bost at arweinwyr moddau hefyd i hysbysu'r staff am y gofyniad hwn. Gofyn am adborth rheolaidd gan gleifion a gweithredu lle y bo angen.	Arweinydd safle	Rhagfyr 2021
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i roi diweddariadau rheolaidd i'r staff a chleifion ar adborth profiad y claf a roddir i'r gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gamau	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Trefnu ac arddangos gwybodaeth am wasanaeth adborth y cleifion ar hysbysfwrdd yr ystafell aros. Adran 'dywedoch chi, gwnaethon ni' mewn ymateb i sylwadau/adborth. Cyfathrebu	Arweinydd safle	Rhagfyr 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gweithredu a gymerir o ganlyniad i'r adborth hwnnw.		â'r staff mewn cyfarfodydd staff rheolaidd.		
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau ei fod yn atgoffa'r staff am bwysigrwydd diweddarau dogfennau perthnasol yn rheolaidd er mwyn dangos bod gwiriadau adnabod cleifion wedi cael eu cynnal cyn cysylltiadau.	Atodlen 2(a)	Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb o ran gwiriadau adnabod drwy Fforwm yr Adran Radioleg ac ymgyrchoedd poster. Caiff poster eu harddangos mewn manau amlwg. Drwy System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS), cynnal archwiliadau rheolaidd o'r ffordd y cofnodir gwybodaeth am geisiadau a gweithredu lle y bo angen.	Arweinydd safle	Rhagfyr 2021
Dylai'r cyflogwr sicrhau y cynhelir adolygiad o weithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr sy'n ymwneud ag ymholiadau ynglŷn â beichiogrwydd a bwydo ar y fron er mwyn sicrhau bod digon o fanylion am y broses i'w dilyn gan y staff.	Atodlen 2(c)	Adolygu gweithdrefnau'r cyflogwr a sicrhau eu bod yn cyfeirio at Weithdrefn Safonol yr adran ar gyfer cleifion sy'n bwydo ar y fron. Caiff hyn ei ddilysu yng Nghyfarfod Cysylltiadau'r bwrdd iechyd ym mis Tachwedd 2021.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff y siart lif ar gyfer ymholiadau ynglŷn â beichiogrwydd ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n gywir y weithdrefn y cytunwyd arni sydd ar waith.	Atodlen 2(c)	Addasu teitl siart lif EP8 a chyfeirio at Weithdrefn Safonol yr adran yn yr adran hon o weithdrefnau'r cyflogwr. Caiff hyn ei ddilysu yng Nghyfarfod Cysylltiadau'r bwrdd iechyd ym mis Tachwedd 2021.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021
Dylai'r cyflogwr ddiweddarau'r weithdrefn mewn perthynas ag atgyfeiradau a chanllawiau atgyfeirio i ddileu'r cyfeiriad at ganllawiau atgyfeirio'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer delweddu.	Rheoliad 6(5)(a)	Diwygio gweithdrefnau a chanllawiau atgyfeirio'r cyflogwr. Caiff hyn ei ddilysu yng Nghyfarfod Cysylltiadau'r bwrdd iechyd ym mis Tachwedd 2021.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021
Mae'n rhaid i'r cyflogwr gynnal adolygiad o'r holl weithdrefnau mewn perthynas ag atgyfeiriadau a chanllawiau atgyfeirio er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir y prosesau atgyfeirio y cytunwyd arnynt sydd ar waith yn yr adran.	Rheoliad 10(5)	Diwygio ac adolygu EP4, 5 a 6 er mwyn sicrhau eu bod yn unol â chanllawiau Coleg Brenhinol y Radiolegwyr. Sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r arferion presennol yn fwy cryno. Caiff hyn ei ddilysu yng Nghyfarfod Cysylltiadau'r bwrdd iechyd ym mis Tachwedd 2021.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod tystiolaeth glir ar gael i ddangos bod deiliaid dyletswydd wedi ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant,	Rheoliad 17(4)	Mae tystiolaeth o hyfforddiant ac asesiadau o gymhwysedd ar gael ar ffurf copi papur yn yr Adran Meddygaeth Niwclear.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yn ogystal â thystiolaeth glir bod eu cymhwysedd wedi cael ei asesu.				
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod cofnodion hyfforddiant ac asesu deiliaid dyletswydd yn cael eu hadolygu a'u llofnodi gan reolwr ar lefel uwch.	Rheoliad 17(4)	Mae cofnodion hyfforddiant ac asesu deiliaid dyletswydd wedi cael eu hadolygu a'u llofnodi gan yr arweinydd safle blaenorol. Caiff hyn ei gwblhau bob blwyddyn.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod cofnodion hyfforddiant a chymhwysedd yn cael eu cynnal ar gyfer pob deiliad dyletswydd sy'n gweithio yn yr adran, gan gynnwys ymarferwyr, atgyfeirwyr anfeddygol a'r aelodau hynny o'r staff sy'n rhoi cymorth ffiseg feddygol.	Rheoliad 17(4)	Sicrhau bod cofnodion hyfforddiant ymarferwyr ac atgyfeirwyr anfeddygol a staff ffiseg feddygol yn bodloni'r gofynion ynglŷn â chymhwysedd ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mynd ati i ddatblygu fersiwn electronig y gall defnyddwyr ei darllen, ei diweddarau a'i llofnodi.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Hydref 2022
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod modd cyfiawnhau'r holl gysylltiadau meddygol a bod modd adnabod yr ymarferydd unigol (neu'r gweithredwr o dan y canllawiau ar awdurdodiad dirprwyedig) sy'n cyfiawnhau ac yn awdurdodi pob cysylltiad.	Rheoliad 11(1)(c)	Adolygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig presennol a sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir yn cael eu hadlwyrrchu yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer cysylltiadau gofalwyr a chysurwyr mewn meddygaeth niwclear gael ei hadolygu i ddileu'r eithriad sy'n ymwneud â chysylltiadau dos isel gofalwyr a chysurwyr.	Atodlen 2(n)	Mae'r arbenigwr ffiseg feddygol wrthi'n ei hadolygu a chaiff ei diwygio o fewn gweithdrefnau'r cyflogwr.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021
Dylai'r cyflogwr ystyried cynnwys canllawiau ychwanegol yng ngweithdrefn y cyflogwr o ran optimeiddio cysylltiadau ar gyfer cleifion sy'n bwydo ar y fron.	Atodlen 2(c)	Sicrhau bod gweithdrefnau'r cyflogwr yn croesgyfeirio at Weithdrefn Safonol yr adran wrth ystyried archwiliadau dos isel/nad ydynt yn rhai ïoneiddio.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021
Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig er mwyn sicrhau bod digon o fanylion am y broses adolygu a lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer amllder meddygaeth niwclear.	Atodlen 2(f)	Mae hyn wrthi'n cael ei adolygu gan y bwrdd iechyd sy'n ceisio cyngor gan arbenigwyr ffiseg feddygol. Caiff hyn ei ddilysu yn y Cyfarfod Cysylltiadau nesaf sydd wedi'i drefnu ym mis Tachwedd 2021.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig yn cael ei diweddarau i adlewyrchu rôl y Grŵp Diogelu Ymbelydredd.	Atodlen 2(f)	Mae hyn wrthi'n cael ei adolygu gan y bwrdd iechyd sy'n ceisio cyngor gan arbenigwyr ffiseg feddygol. Caiff hyn ei ddilysu yn y Cyfarfod Cysylltiadau nesaf sydd wedi'i drefnu ym mis Tachwedd 2021.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod dogfennau perthnasol yn cael eu diweddarau i nodi'n glir lefelau goddefiad gweithgarwch a weinyddir y cytunwyd arnynt a sicrhau ei fod yn atgoffa'r staff o bwysigrwydd cofnodi union werth mesuredig gweithgarwch a weinyddir i gleifion.	Atodlen 2(e)	Mae'r wybodaeth angenrheidiol bellach ar gael yng Ngweithdrefnau'r Cyflogwr.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y stocrestr o gyfarpar a ddefnyddir yn yr adran yn cael ei diweddarau i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.	Rheoliad 15(2)	Mae'r wybodaeth angenrheidiol bellach ar gael yng Ngweithdrefnau'r Cyflogwr.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod profion diogelwch trydanol yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl gyfarpar a restrir ar y stocrestr lle y nodir bod profion yn hwyr.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Gweithredir ar yr argymhelliad hwn ar hyn o bryd, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfarpar yn mynd drwy brofion PAT. Disgwylir cwblhau'r cam hwn erbyn mis Rhagfyr 2021	Arweinydd safle	Rhagfyr 2021
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig ar waith sy'n nodi'n glir y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd cyfarpar.	Rheoliad 15(1), Atodlen 2(d)	Mae trefniadau sicrhau ansawdd cyfarpar bellach ar gael yng Ngweithdrefnau'r Cyflogwr.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn ystafell aros yr adran.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae cadeiriau wedi'u difrodi wedi cael eu gwaredu ac mae rhai newydd yn eu lle. Cysylltwyd â'r adran ystadau er mwyn atgyweirio gwaith plastro, a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2021.	Arweinydd safle	Rhagfyr 2021
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod safbwyntiau staff yr adran yn cael eu casglu er mwyn sicrhau, lle y bo modd, fod yr addasiadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd a'r ymarfer o ran COVID-19.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Arweinydd safle newydd yn ei swydd. Mae hyn wrthi'n cael ei adolygu. Mae arweinydd y safle yn ymgysylltu â'r staff i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd gwaith o ystyried y gofynion presennol i gadw pellter cymdeithasol. Ceisiwyd cyngor gan Gynghorydd Iechyd a Diogelwch y bwrdd iechyd. Cytunwyd ar ystafell adrodd newydd. Wrthi'n aros i'r adran Ystadau wneud y gwaith er mwyn cadw at ofynion cadw pellter cymdeithasol.	Arweinydd safle	Tachwedd 2021
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig ar waith sy'n adlewyrchu'r trefniadau archwilio clinigol sydd ar waith yn yr	Rheoliad 7	Bydd y bwrdd iechyd yn mabwysiadu amserlen archwilio clinigol yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Adran Meddygaeth Niwclear yn gywir ac yn eu ffurfioli.				
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod canlyniadau a newidiadau i ymarfer ar ôl archwiliadau clinigol yn cael eu dogfennu'n glir.	Rheoliad 7	Bydd y bwrdd iechyd yn mabwysiadu amserlen archwilio clinigol yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gwybodaeth ar gael sy'n nodi'r gofynion cymhwysedd a chwmpas ymarfer i arbenigwyr ffiseg feddygol sy'n rhoi cyngor a chymorth i'r adran.	Rheoliad 14(1)	Mae hyn yn mynd rhagddo, a disgwylir i'r argymhelliad gael ei roi ar waith erbyn mis Mawrth 2022.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Mawrth 2022
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o wella gwelededd uwch-reolwyr yn yr Adran Meddygaeth Niwclear, ynghyd â lefel yr ymgysylltu a'r gefnogaeth ganddynt.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae arweinydd newydd y safle yn ei swydd, ac mae wedi'i leoli ar y safle er mwyn i'r staff gysylltu'n rheolaidd â rheolwr. Mae'n ymgysylltu â staff meddygaeth niwclear ar hyn o bryd ac yn sefydlu fforymau rheolaidd rhwng y rheolwr a'r staff yn yr adran. Mae rheolwr cyffredinol Radioleg yn dod i Fforwm yr adran Radioleg, tra'n aros i Bennaeth newydd Radioleg ddechrau yn ei swydd.	Arweinydd safle	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod pob deiliad dyletswydd wedi cael hawl, yn unol â'r weithdrefn ysgrifenedig y cytunwyd arni sydd ar waith.	Atodlen 2(b)	Mae adolygiad o hawliau deiliaid dyletswydd wrthi'n cael ei gynnal a bydd gofyn i'r staff gyflwyno tystiolaeth ddogfennol ychwanegol lle y bo angen er mwyn profi cymhwysedd.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Mawrth 2022
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod adolygiad o'r ddogfennaeth hawliau yn cael ei gynnal i gadarnhau bod manylion yn adlewyrchu'n gywir y weithdrefn y cytunwyd arni, ac er mwyn lleihau dyblygu mewn dogfennau perthnasol.	Atodlen 2(b)	Mae adolygiad o hawliau deiliaid dyletswydd wrthi'n cael ei gynnal, a bydd gofyn i'r staff gyflwyno tystiolaeth ddogfennol ychwanegol lle y bo angen er mwyn profi cymhwysedd.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Mawrth 2022
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau cyfredol gan y cyflogwr ar gael yn hawdd i bob aelod o staff yr adan.	Rheoliad 6(1)	Mae fersiynau diweddaraf o weithdrefnau'r cyflogwr ar gael ar ffurf copïau papur ym mhob modd, y gall pob aelod o'r staff gael gafael arnynt. Cymerwyd camau i'w gwneud yn haws i bob aelod o'r staff ddarllen a llofnodi'r datganiad. Mae'r dogfennau hefyd ar yriant a rennir ar y safle ac maent ar gael i'r pedwar arweinydd safle yn y bwrdd iechyd gyfeirio atynt.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y gweithdrefnau ysgrifenedig sydd ar waith yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gywir a'u bod yn adlewyrchu'r arferion sydd ar waith mewn gwirionedd yn yr Adran Meddygaeth Niwclear.</p>	Rheoliad 6(1)	<p>Mae fersiynau diweddaraf o weithdrefnau'r cyflogwr ar gael ar ffurf copïau papur ym mhob modd, y gall pob aelod o'r staff gael gafael arnynt. Caiff y gweithdrefnau eu hadolygu bob tro y cânt eu newid. Mae'r dogfennau hefyd ar yriant a rennir ar y safle ac maent ar gael i'r pedwar arweinydd safle yn y bwrdd iechyd gyfeirio atynt.</p> <p>Cymerwyd camau i'w gwneud yn haws i bob aelod o'r staff ddarllen a llofnodi'r datganiad.</p>	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Cwblhawyd  Tachwedd 2021
<p>Dylai'r cyflogwr sicrhau bod yr holl brotocolau ysgrifenedig sydd ar waith yn cynnwys y manylion angenrheidiol fel y'i nodwyd yng ngweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rheoli dogfennau.</p>	Rheoliad 6(5)(b)	Bydd Rheolwr Gwasanaethau newydd yr Adran Radioleg, pan fydd yn ei swydd, yn ymgysylltu â'r arbenigwyr ffiseg feddygol a'u hadolygu. Cânt eu dilysu yng Nghyfarfod y Grŵp Cysylltiadau ym mis Tachwedd.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021
<p>Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas ag adrodd ac ymchwilio i gysylltiadau damweiniol neu</p>	Rheoliad 8(4)	Mae'r weithdrefn ysgrifenedig wrthi'n cael ei hadolygu gan y bwrdd iechyd a disgwylir i'r broses hon gael ei chwblhau	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Tachwedd 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
anfwriadol yn cael ei diweddarau i gynnwys dolen weithredol i'r adran berthnasol ar wefan AGIC.		ym mis Tachwedd 2021 yng Nghyfarfod y Grŵp Cysylltiadau.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o gymhwysedd y gweithlu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn Yr Adran Meddygaeth Niwclear yn ddigon cymwys i ymgymryd â'u rolau perthnasol.	7.1 Y Gweithlu	Bydd arweinydd y safle yn uwchgyfeirio y mater hwn fel risg at sylw rheolwr gwasanaethau'r adran Radioleg er mwyn cynnal adolygiad. Mae newidiadau ymhlith y rheolwyr yn mynd rhagddynt. Bydd Rheolwr Gwasanaethau newydd yr Adran Radioleg yn ei swydd ym mis Tachwedd 2021.	Rheolwr gwasanaethau radioleg	Mawrth 2022
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le ar gael i'r aelodau perthnasol o'r staff ymgymryd â thasgau adrodd fel rhan o'u rolau.	7.1 Y Gweithlu	Dyrannwyd ystafell adrodd newydd ac mae'r gwaith wedi cael ei gymeradwyo a'i ariannu.	Arweinydd safle	Tachwedd 2021
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran yn cael trafodaethau arfarnu rheolaidd â'i reolwr llinell, sy'n cwmpasu ei ofynion hyfforddiant a datblygu.	7.1 Y Gweithlu	Mae'r datganiad hwn wedi cael ei herio o ran cywirdeb ffeithiol. Mae arweinydd newydd y safle sydd yn ei swydd yn cael hyfforddiant ar adolygiadau datblygiad personol ar 14.10.21 ac ar ôl hynny caiff rhaglen ei chyflwyno i ddiweddarau pob adolygiad sy'n weddill yn Adran Radioleg Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg.	Arweinydd safle	Mawrth 2022

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yr adran wedi bodloni'r gofynion hyfforddiant gorfodol.	7.1 Y Gweithlu	Bydd arweinydd newydd y safle yn cynnal adolygiad perfformiad ac yn neilltuo amser i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol. Cydgysylltu ag arweinwyr cyrsiau ynglŷn â chyrsiau hyfforddiant wyneb yn wyneb a ddaeth i ben o ganlyniad i COVID-19 – ar hyn o bryd mae'r staff wedi ymrestru ac ar restrau aros ar gyfer cyrsiau lle mae opsiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gael, gyda hyfforddiant wyneb yn wyneb arall (megis hyfforddiant tân) yn cael eu cynnal drwy ddulliau rhithwir oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Bydd y rheolwr yn monitro pa hyfforddiant y mae'r staff yn ei gael drwy fetrigau'r Cofnod Staff Electronig.	Arweinydd safle	Mawrth 2022
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau presennol sydd ar waith o ran mynediad i gymorth iechyd galwedigaethol.	1.1 Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd 7.1 Y Gweithlu	Mae'r bwrdd iechyd bellach wedi dileu'r ôl-groniad mewn atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol a nodwyd yn flaenorol. Erbyn hyn, mae aelodau o'r staff yn cael eu gweld yn amserol. Mae arweinydd newydd y safle yn ymgysylltu â'r staff a	Arweinydd safle	Mawrth 2022

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gwasanaethau llesiant wyneb yn wyneb yn yr adran.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddynt a sut i gael gafael arno.	1.1 Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd 7.1 Y Gweithlu	Mae'r wybodaeth hon ar gael ar fewnrwyd y bwrdd iechyd. Bydd arweinydd y safle yn sicrhau bod arweinwyr moddau yn gallu cyfeirio aelodau o'r staff at y wybodaeth hon drwy gyfarfodydd tîm. Caiff gwybodaeth am wasanaethau llesiant ei rhoi ar hysbysfwrdd ystafell y staff.	Arweinydd safle	Tachwedd 2021

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Gillian Lingwood**

**Swydd: Radiograffydd Arweiniol y safle, Ysbyty Llwynhelyg**

**Dyddiad: 01/10/2021**